

Targedau o'r adborth modwl diwethaf	Sut ydych wedi gweithio ar hwn?	Mae enghraifft ar gael yn...
Parhau i weithio tuag at Targed 1 a gwneud mwy o ddefnydd o lyfrau ac erthyglau academiaidd sydd ar gael o lyfrgell y Brifysgol gan gynnwys deunydd a gyflwynwyd ar rhestr ddarllen y modwl er mwyn gwella'r drafodaeth. Gellid darllen mwy o adroddiadau arfer dda Estyn hefyd er mwyn ymgyswngtu gydag ymarfer mewn ysgolion. Bydd hyn yn gwella dy wybodaeth a dy ddealltwriaeth o'r meysydd dan sylw yn yr aseiniad.	Gweler cyfeirnod isod	Rhan llenyddiaeth – cynnwys ymchwil ychwanegol
Er mwyn gwella safon yr iaith ysgrifenedig, cysyllta gyda Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn ymuno gyda rhai o'r sesiynau Cymorth Sgiliau Astudio https://www.uwtsd.ac.uk/cy/profiad-chyfleusterau/cymorth-lles-myfyrwyr/cymorth-dysgu . Byddai'r rhain o help i ti gyda sgiliau megis prawf-ddarllen a threfnu gwaith cyn ei gyflwyno. Gwna ddefnydd hefyd o ddeunydd sesiynau Cymraeg i Bawb i wella treigladau a strwythur brawddegau.	Wedi danfon ebyst i parhau wella.	wedi ceisio gwneud trwy gydol y gwaith
Cynnwys mwy o fanylder yn y drafodaeth yn gyffredinol. Wrth gyfeirio at 'strategaethau' mae angen esbonio 'beth' a 'sut'. Byddai hyn yn dangos mwy o ddyfnder gwybodaeth.		Wedi ceisio gwneud trwy gydol y gwaith

Prosiect ymchwil – Astudiaeth achos archwiliadol sy'n deillio o ymarfer (sylwi) ac ymchwiliad pellach drwy'r offer ymchwil a nodwyd. Mae'r aseiniad yn gorffen gydag adnabyddiaeth o ymyrraeth y gellir ei dreialu trwy PAP a'i dystiolaethu trwy fyfyrion yn y PDP (safonau dysgu proffesiynol).

Cyflwyniad

Yn y prosiect ymchwil hwn byddaf yn ei drafod ac yn canolbwyntio arno dysgu yn yr awyr agored ac archwilio *sut mae dysgu yn yr awyr agored yn gallu datblygu sgiliau echddygol plant ifanc?* Penderfynir canolbwyntio'n benodol ar Ysgolion Coedwig fel cyd-destun ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac archwilio sut mae gweithgareddau yn yr Ysgolion Coedwig yn gallu helpu plant i ddatblygu eu sgiliau echddygol. Gan obeithio y bydd y cwestiwn hwn yn dyfnhau fy nealltwriaeth, er fy mod wedi bod yn ddigon ffodus i arsylwi ysgolion coedwig ond gyda'r ymchwil hwn gobeithaf cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau a chael mwy o wybodaeth ar gyfer anturiaethau'r dyfodol. Mae dau fath o sgiliau echddygol i'w hystyried wrth feddwl am ddatblygiad plentyn, sgiliau echddygol manwl a sgiliau echddygol bras, byddaf yn edrych ar

y ddau ac yn edrych am ddealltwriaeth ddyfnach os gellir datblygu'r rhain yr un fath y tu allan â'r tu mewn. Enghraifft o sgiliau echdddygol manwl yw defnyddio'ch dwylo a'ch bysedd, pinsio a bod yn fanwl gywir: dal pensil, gwneud sip ac ati. Lle fel enghreifftiau o sgiliau echdddygol bras a defnyddio'ch coesau a gwella stamina: rhedeg, neidio a symudiadau mawr.

Mae'r ymchwiliad hwn wedi'i wneud mewn ysgol leol ym Merthyr Tudful, sydd yn hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored i fod "pwrpasol, eang ac arbennig i fanteisio" yn ôl polisi dysgu yn yr awyr agored (██████████, 2023-24), darllenwyd pellach yn atodiad 6 polisi awyr agored yr ysgol. Mae ysgolion coedwig yn dod yn fwy poblogaidd o fewn yn ysgolion yn enwedig ar ôl COVID (Pillman, 2022) ac o fewn y Cwricwlwm i Gymru darllenwyd fod Dysgu sylfaen yn annog annibyniaeth trwy ddarganfod a defnyddio'r awyr agored trwy neud hyn (Llywodraeth Cymru, 2023). Felly mae defnyddio deunyddiau ymchwil yn yr ysgol yn fwy o brofiad i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth ar y topig.

Llenyddiaeth

Fel disgrifiwyd uchod mae yna dau fath o sgiliau echdddygol plant ac mae'r ymchwiliad hon yn ei ffocysu ar fel gallwch ddatblygu yn yr ardal allanol, maen holl bwysig fod gan bob plentyn gwneud cynnydd wrth addysgu a dysgu cyffredinol. Yn ôl llywodraeth Cymru (2024) mae'r 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y sail i gynnydd disgyblion, mae cefnogi disgyblion yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant i bob dysgwyr. Cyhoeddwyd hefyd y disgrifiadau dysgu sydd yn dilyn cynnydd o ran continwwm dysgu unigol dysgwyr sydd yn addas i bawb (Llywodraeth Cymru, 2022), felly wrth gynllunio'r cwricwlwm gallwch addasu er mwyn gallu ddatblygu sgiliau tu allan yn yr ardal allanol.

Fel arfer disgrifiwyd yr ardal allanol a'r cysylltiad gyda sgiliau echdddygol bras, ond wrth i blant darganfod tu allan a chodi pethau i fyny maen hefyd hybu defnydd o sgiliau echdddygol manwl (Michel, 2024). Wrth fod yn yr ardal allanol ymwybyddiaeth plentyn hefyd yn gwella wrth ymchwilio a brwydo mae beth sydd o gwmpas nhw yn dod yn fwy amlwg (Creative Play, 2023), mae llawer o ardaloedd tu allan gyda fframiau dringo, meinciau a phren o'i gwmpas sydd yn helpu plant i fod yn ymwybodol o gymryd risgiau o'r ardal o'i gwmpas. Mewn ymchwiliad sgiliau echdddygol plant darllenwyd fod posibilrwydd i blant gyda ADHD gyda diffyg gweithredu gan ddefnyddio sgiliau echdddygol manwl a fras ac yn fwy tebygol o gael damwain neu drafferth cydbwysedd (Kaiser, Schoemaker, Albaret, Geuze, 2015), felly wrth ystyried gwersi tu allan a thu fewn mae angen sicrhau'r gwahaniaethu'r dasg sydd yn addas i bawb. Cymerwch i ystyriaeth nad ydy pob disgybl yn hoffi dysgu o fewn yr ystafell dosbarth ac felly bod yn yr awyr agored yn gyfle perffaith iddynt beidio â sylweddoli eu bod yn dysgu ac i fwynhau trwy chwarae, gan ddatblygu'r dysgu trwy ddull Montessori a dysgu trwy hunan gyfarwyddyd tasgau yn yr awyr agored (Isaacs, 2018). Mae ysgolion coedwig yn ffordd wych i blant ddysgu'n gyfannol yn yr awyr agored, trwy archwilio, chwarae a chymryd risg yn aral

naturiol (Forest sachell association, 2021), felly yn canolbwyntio ar y cwestiwn er mwyn dealltwriaeth i ddyfnhau dysgu ac addysgu o sut y gall sgiliau penodol ddatblygu. Yn ôl estyn mae ysgolion coedwig yn annog sgiliau meddwl a helpu gyda gwaith o fewn ystafell sydd hefyd yn berthnasol wrth greu'r cwricwlwm i Gymru (Estyn 2024), mae'r sgiliau creadigol yn gallu hybu ffyrdd o ddatrys problemau yn sefyllfaoedd bywyd go iawn neu yn y dosbarth. Yn yr un modd a dull Montessori mae Kolb hefyd yn annog dysgu trwy brofiadau'r disgybl, ond yn gynnwys pedwar cam o brofiad, arsylwi, cydsyniad ac arbrofi (Kolb, 2014), i gymhwyso hyn i awyr agored mae'n rhoi i'r plant profiadau bywyd go iawn yn fyd naturiol. Mae ymchwil gan gyfoeth Naturiol Cymru sydd yn sôn bod llefydd naturiol yn annog dysgu annibynnol sydd hefyd yn helpu plant deall risg (CNC, 2023), felly wrth ddysgu yn yr awyr agored mae sgiliau yn datblygu.

Mewn dadansoddiad o bolisi ysgol dangosodd y gallai fod gan bob ysgol bolisi gwahanol tuag at eu hardal awyr agored yn dibynnu ar yr hyn sydd ynddo, felly gan ystyried amodau tywydd mae asesiadau risg yn ei le er mwyn sicrhau diogelwch. Fel arfer bydd yr ysgol goedwig yn parhau i gael ei ddefnyddio ond o ran tywydd eithafol bydd sesiynau yn cael ei ohirio oherwydd y coed (Children of the Forest, 2021).

Mae yna lefelau gwahanol o gymwysterau y gellir eu gwneud i fod yn arweinydd ysgol goedwig hyd at lefel 3, mae'r cwrs hyd at mil o bynnoedd (Forest schools, 2023), felly gall fod yn gostus i staff gael hyfforddiant ychwanegol i rhedeg ysgolion goedwig. Mae'n bwysig cymryd hyn mewn i ystyriaeth cyllid yr ysgol wrth trefnu a cynllunio wersi yn yr awyr agored.

Y dyluniad Ymchwil: Astudiaeth Achos

Mae astudiaeth achos yn ffocysu ar ddealltwriaeth pwnc penodol gan ddefnyddio gwahanol ddulliau a phwyslais ar dystiolaeth (Simon 2009, t.21). Gan ei fod yn ffocysu ar bwynt yn gyd-destun bywyd go iawn a gofyn cwestiynau (Yn, 1994), gan ei bod wedi'i gosod mewn amgylchiadau bywyd go iawn gall y wybodaeth fod yn fwy perthnasol ac yn haws ei chymhwyso i ymarfer. Agwedd arall o ddefnyddio yw'r amrywiaeth yr offer wrth gasglu data, gallwch ddefnyddio offer gwahanol er mwyn gallu dod i gasgliad sydd yn seiliedig ar ddarlun llawn. Ond gall amser paratoi dros gyfnod hir fod yn ffactor sydd yn cyfyngu'r astudiaeth achos (Merriam, 1998) oherwydd yr holl ymchwil sydd yn gydfyd gyda beth rydych yn darganfod gan ystyried yr amser mae'n cymryd i greu'r adnoddau er mwyn gallu cyflawni'r ymchwil. Mae'r gwrthrych yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio fel mae plant yn datblygu sgiliau echddygol yn yr ardal allanol, ac mae'r pwnc yn y plant yn yr ysgol ac fel mae'r athrawon yn ei chynnal yn wersi. Yn ôl ymchwil er bod astudiaethau achos yn boblogaidd ac yn dda ar gyfer ymchwil gryno, mae pobl yn ei gwestiynu o ran dibynadwyedd oherwydd y strwythur (Quintao, Andrade, Almeida, 2020).

Dulliau ymchwil

Trwy gydol y prosiect ymchwil hwn defnyddiwyd nifer o offer ymchwil gwahanol sy'n cynnwys cyfweiliadau grŵp, arsylwadau Dosbarth a holiaduron, mae gan bob un o'r arfau hyn fanteision ac anfanteision a drafodir isod. Trwy ddechrau gyda thrafod cyfweiliadau, gellir cynnal y broses gyfweild gyda staff neu gyda'r plant ar gyfer y prosiect hwn, defnyddiwyd y ddau i gael darlun mwy o fewn yr ysgol a sut mae'r ysgol goedwig yn gweithredu a buddiol i blant. Trwy gyfweild mae'n bwysig canolbwyntio eich cwestiynau ar y prif gwestiwn gan ei gadw'n gryno ac yn briodol i oedran y plentyn rydych chi'n ei ofyn. Mae cyfweild yn hawdd i'w wneud er mwyn dod yn syth at y pwynt a chael barn onest o wahanol bobl, er hyn gall y farn fod yn unochrog ac yn effeithio canlyniadau'r data. Er mwyn sicrhau data gorau gall addasu ar gyfer eich cynulleidfa. Yn ôl 'NSPCC learning' mae angen addasu ar gyfer lefel y dysgwyr, hefyd gan ystyried os oes angen cyfieithu cwestiynau a geiriau iddynt (2023). Gwelir atodiad 4 am gwestiynau a chafodd ei ofyn yn ystod cyfweiliad grŵp gydag athrawes a chynghor lles yr ysgol. Defnyddwyr cwestiynau – er mwyn cael darlun bras o farn y plant o'r awyr agored. O wneud hyn ymatebodd y plant yn hyderus ac yn glir, roedd pwyllais ar esbonio iddynt roedd y wybodaeth yn anhysbys gan ddilyn cod BERA 2024 i sicrhau diogelwch.

Lle mae defnyddio holiaduron yn effeithiol gan nad ydynt yn cymryd cymaint o amser, mae holiaduron yn cael eu gwneud yn ddigidol fel arfer ac yn ddull ymchwil poblogaidd tra'n gost-effeithiol o gasglu data (Munn, Drever, 1990). Gweler yn atodiad 3 y cod QR sy'n cysylltu â 'Microsoft Forms' a anfonwyd at athrawon gyda chwe chwestiwn i gael eu barn, roedd defnyddio'r dull hwn yn hollol amser effeithiol a syml. Mae 'Microsoft Forms' hefyd yn casglu data a fformat graff a graddfeydd. Er ei bod yn gyflym i ddosbarthu os gweler atodiad 3 eto fe weloch dim ond pedwar ymatebodd, felly roedd rhwystr i'r canlyniadau. Wrth fynd ati i ofyn y cwestiynau cyfweiliad i'r plant fe'u newidiwyd i fod yn distrwythur i gadw'r sgwrs yn agored ac felly teimlent yn gyfforddus wrth ateb, eto trwy ddewis iaith briodol i gael canlyniadau gwell.

Yn olaf y dull ymchwil a ddefnyddiwyd oedd arsylwi a gwnaed hyn dros bedwar Dosbarth gwahanol, 2 tu fewn a 2 tu fas, gweler atodiad 2 am beth welwyd ym mhob un a beth oedd cynnwys pob gwers. Mae yna nifer o ddulliau gwahanol allwch ddefnyddio er mwyn arsylwi yn y Dosbarth, er enghraifft graddfa Leuven, defnyddio'r raddfa hon i ystyried 3 cam gwahanol (Georgeson and Payler, t.218, 2013), defnyddwyr elfennau o raddfa systematig gan ddefnyddio grid er mwyn gallu rhannu beth oedd angen darganfod. Rhannwyd y grid mewn i dair colofn o ran beth oedd bwriad wers, sgiliau echddygol manwl a fras o fewn y wers hefyd, roedd hyn yn newid o ran beth oedd angen ei gyflawni. Gan gyfweild ar blant wyneb i wyneb roedd yn rhoi'r cyfle o allu dod i adnabod a chael ymddiried ynddo, roedd hefyd gweld beth oedd y plant yn wneud yn rhoi syniadau er mwyn gallu ddefnyddio wrth

ddatblygu yn broffesiynol. Enghraifft o arfer da oedd sesiwn mathemateg yn yr awyr agored (atodiad 3, rhan d) lle'r oedd angen trefnu deilen o ran maint, cyfle i'r plant ddefnyddio sgiliau echddygol manwl gan godi a gosod yr adnoddau. Serch hynny o greu perthynas gyda'r plant yn gallu achosi rhagfarn er gyfer canlyniadau a beth fyddwch yn ei ddisgwyl. Anfantais arall o'r dull arsylwi y bydd yn ymyrryd a dysgu plant, gan achosi problemau ymddygiad neu yn wneud plant yn anghyfforddus. Gan gymryd i ystyriaeth blant yn y Dosbarth sydd efallai gydag anghenion dysgu ychwanegol a sut y gall y newid mewn trefn effeithio ar eu dysgu, gan arwain o bosib i fod wedi cyffro neu ansefydlog.

Dulliau cyflwyno a ddadansoddi data

Mae yna dau fath o data allwch ystyried wrth ymchwilio, data meintiol ac ansoddol, defnyddwyd data ansoddol i gyflwyno prosiect ymchwil hon. Mae yna dulliau wahanol o fel allwch dadansoddi data gan dilyn rhan o Braun a Clarke (2006) o system dadansoddi thematig er mwyn sicrhau trefn wrth dehongli data, oherwydd mae'r dull ar gyfer nodi dadansoddi ac adrodd ar batrymau o fewn data. Mae safleoldeb yn ystyried fel mae hunaniaeth yr ymchwilydd yn effeithio (Pallock M, 2021), mae'r ymchwilydd yn gallu greu ymchwil yn seiliedig ar eu barn bersonol a sut y canfyddir ymchwil. Er mwyn osgoi safleoldeb yn yr ymchwil hwn defnyddiwyd amrywiaeth o offer ymchwil a defnyddio ffurflen moeseg (atodiad 1) er mwyn ystyried risgiau cyfranogwyr, ymchwilydd a'r brifysgol. Safleoldeb yr ymchwilydd yn ystod yr ymchwil hon fel myfyrwraig o brifysgol sydd wedi bod i'r ysgol yn flaenorol, felly ystyried fel i gasglu data a gael cydsyniad gwybodus. Pwrpas o dadansoddi data oedd fel mae'r ardal allanol yn hyrwyddo sgiliau echddygol dysgwyr Sylfaen, gan gynnwys cynydd disgybl archwilio strategaethau allanol. Cyflwynir yr ymchwil trwy gydol y traethawd hwn ac yn yr atodiadau sydd yn dogfen ar wahan, mae'r atodiadau yn dangos y ddata a gasglwyd. Wrth storio a dadansoddi data mae'n bwysig ystyried unrhyw un a allai fod eisiau tynnu ol o fod yn rhan o'r data a canlyniadau, os felly mae'n gyfreithiol gwneud hynny ar gais (NSPCC,2023), Mae'n hefyd bwysig dileu unrhyw data aro l ddefnyddwyd fel darllenwyd yn atodiad 1 (ffurflen moeseg) fod cydsyniad gwybodus gyda rhieni, plant ac athrawon o beth fydd yn gael ei gynnwys yn yr ymchwil, gan ystyried rheolau a datganiad GDPR.

Gweler yn atodiad 4 dyfniadau o gyfweliad sydd wedi uwchleuo o ran pwy mae'r person yn siarad amdano ar y pryd, gwyrdd yn sylfaen a melyn yn adran iau. Roedd hyn yn gwneud darllen y wybodaeth nol haws i grynhoi a dehongli.

Moeseg

Wrth gynnal yr ymchwil hwn cadwyd yr holl atebion yn ddienw yn dilyn rheolau BERA 2024, a gofynnwyd am ganiatâd i rieni ddefnyddio ffurflen optio allan a anfonwyd drwy e-bost adref gan y dirprwy, gweler atodiad 5. Felly mae pwysigrwydd o ddilyn proses cael caniatâd o rieni, ond gan baid anghofio am ganiatâd y disgybl. Os ydych yn gwneud cyfweiliad gyda phlentyn yn yr ysgol mae gofyn caniatâd iddyn nhw cyn cwestiynu nhw yn bwysig, yn sicrhau bod nhw'n deall bod y cwestiynau yn anhysbys ac yn cael ei dileu ar ôl ateb. Mae'r plant yn gallu dangos os ydyn nhw eisiau cymryd rhan neu beidio trwy dangos bodiau i fyny neu i lawr. Sicrhau bod rhieni yn ymwybodol bod myfyrwyr yn yr ysgol i gadw at bolisiâu diogelu ac i gadw plant yn ddiogel. Gwelir atodiad 1 o'r ffurflen Moeseg er mwyn sicrhau bod y brifysgol yn ymwybodol o'r ymchwil sydd wedi'i wneud yn ysgolion gan fyfyrwyr y brifysgol, gan gynnwys risgiau cyfranogwyr, ymchwilydd a'r brifysgol.

Wrth drafod moeseg mae hefyd angen ystyried safleoldeb yr ymchwilydd ac fel mae hyn yn cael effaith ar y broses yr ymchwil ac fel mae'r gwaith yn cael ei phortreadu. Mae angen ystyried mathau o ragdybiaethau sydd yn gallu codi wrth gyflwyno gwaith a ble mae'r rhagdybiaethau yma yn ei ddod? Gan gychwyn yr ymchwil yma cymerodd lle yn ysgol PAP blaenorol ac felly roedd yna barod perthynas gyda'r plant i gymharu ar fyfyrwyr eraill, ac felly roedd yn bwysig ystyried perthnasoedd blaenorol wrth gael atebion ar gyfer cwestiynau cyfweiliadau â phlant, gan ei gadw mor deg â phosibl ag osgoi rhagfarnu. Hefyd bwysig i ystyried os ydy'r person sydd yn cymryd rhan yn eich ymchwil eisiau tynnu mas, mae hawl i'w wneud ar unrhyw adeg (NSPCC, 2023).

Dadansoddiad o ganlyniadau

Yn ystod yr ymchwil yn yr ysgol i archwilio *sut mae dysgu yn yr awyr agored yn gallu datblygu sgiliau echddygol plant ifanc?* Roedd y data a gasglwyd yn eithaf eang ac yn gynnwys amrywiaeth o atebion gan athrawon, cynorthwywyr dysgu a phlant. Roedd pawb yn cytuno fod yr ardal allanol yn cael ei ddefnyddio yn aml iawn (gweler atodiad 3) ac ar y cyfan cytunwyd fod athrawon yn annog plant i ddatblygu sgiliau echddygol tra bod yn yr awyr agored. Wrth drafod gydag athrawon yn yr ysgol mae sesiynau awyr agored yn cael ei chynnal bob pythefnos wrth i athrawon cael eu hamser CPA, darllenwyd hyn hefyd yn atodiad 6, mae diwrnodau yma yn cael ei arwain gydag arweinydd awyr agored sydd yn rhoi cyfleoedd gorau i'r plant i ddatblygu. Fel dwedwyd uchod dim ond pedwar gwnaeth ymateb i'r holiadur wnaeth gael ei ddosbarthu felly nad yw'r canlyniadau yn amrywiol ynglŷn ag ymateb, gweler yn atodiad 3 enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi'i chynllunio am yr awyr agored, enghraifft o hyn oedd gweithgareddau celf gyda deunyddiau naturiol. Roedd y gwaith celf hwn ar arddangosfeydd yn yr ystafell dosbarth ac felly roedd cyfle i weld y cysylltiad rhwng yr awyr agored a gwaith oedd yn cael ei gyflawni.

Wrth gyrraedd yr ysgol cawsom daith o gwmpas yr ysgol a'n harwain i lawr i'r ardal ddysgu awyr agored lle'r oedd yn amlwg i weld yr ardal a ddefnyddiwyd ar gyfer dysgu, teiars lle gallai plant gami ymlaen neu yn nol, meinciau lle gallai'r plant eistedd, dringo neu gropian o dan, traciau anwastad i allu gweithio ar eu cydbwysedd, sydd yn eu hannog i ddatblygu sgiliau manwl a bras.

Hefyd gweler atodiad 4 rhan B cyfweiliad byr gydag arweinydd ardal allanol, ac roedd pwyslais y sgwrs yn sôn am y plant sylfaen yn elwa o ran sgiliau echddygol gan ei fod yn dysgu i wisgo felly mae gwisgo elfen fawr o ddefnyddio'r ardal allai goginiodd wnaeth arweinydd arall allanol hefyd sôn am y tywydd fod yn broblem i blant hyn yr ysgol, ond ar ôl trafod gyda'r plant maen nhw'n cytuno i fynd mas ac yn mwynhau, gan hefyd ddatblygu sgiliau wrth blannu bwyd yn ardd yr ysgol ac yn cysylltu gyda bywyd go iawn ac yn defnyddio'r bwyd i goginio.

Wrth edrych ar y data gweler yn atodiadau cefais amrywiaeth o fewn fy atebion, ond yn anffodus cefais drafferth cadw'r pwnc yn seiliedig ar sgiliau echddygol oherwydd fel pwnc mae'n cysylltu gydag agweddau eraill dysgu agored. Cyfyngiad olaf o gasglu data oedd adeg y flwyddyn cymerodd yr wythnos ymchwil, achos yr ymarferion sioe Nadolig. Ond hefyd mae diwrnodau awyr agored yn yr ysgol hefyd yn cysylltu gyda phrosiect entrepreneuriaeth yn yr ysgol, lle mae'r plant yn casglu pethau naturiol ond wedyn yn defnyddio amser yn y dosbarth er mwyn creu arddunedd i werthu yn y ffair Nadolig, Felly er bod y deunyddiau yn cael eu casglu y tu allan oherwydd roedd angen gorffen addurniadau yn barod ar gyfer y ffair Nadolig nid oedd y ffocws yr wythnos yna ar y plant defnyddio sgiliau echddygol y tu allan.

Casgliadau

Nod y prosiect ymchwil hwn oedd canolbwyntio ar archwilio *sut mae dysgu yn yr awyr agored yn gallu datblygu sgiliau echddygol plant ifanc?* Trwy gwblhau wythnos ymchwil a gwneud darllen pellach, fel y gwelwch yn yr atodiadau sydd wedi'u cynnwys mae gwahanol ddulliau ymchwil wedi cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth ffeithiol gan ddefnyddio astudiaeth achos. Gan fynd yn ôl at Kolb (2014) a'i damcaniaeth o ddysgu trwy brofi ac arbroti, roedd sgiliau echddygol plant ar y cyfan yn cael ei annog a datblygu yn yr awyr agored. Mantais fel disgrifiwyd uchod oedd y drafodaeth agored gyda'r plant a oedd yn ateb cwestiynau am yr awyr agored a theimladau nhw am y manteision ac anfanteision, plant yn creu argraff arbennig o'r ardal allanol a fel allwch ei defnyddiol. Ond gyda chyfyngiadau oherwydd amser y flwyddyn a rhwystrau sioe Nadolig, ac weithau newidiadau CPA. Os nad oedd sesiwn yn digwydd ar diwrnod CPA roedd y plant yn colli mas a gorfod aros 2 wythnos arall am y sesiwn awyr agored. Unwaith roedd yr ymchwilydd wedi treulio amser yn yr ysgol roedd yn amlwg bod sgiliau echddygol yn cael eu hannog i ddatblygu y tu allan i'r ystafell

dosbarth, gan ddechrau o'r Meithrin a cam cynydd 1 a 2 a oedd yn ddefnyddio aral allanol fel dysgu parhais tu fas y dosbarth gan defnyddio tywod, dwr a teganau; eto yn annog annibynnaeth dysgu trwy ffurfio yn y tywod acyyb. Bydd angen cynnal astudiaethau pellach er mwyn gallu cadarnhau os oes angen fwy o ffocws ar asesu yn yr awyr agored i gael darlun clir o ddatblygu sgiliau plant.

Argymhellion

Mae hwn yn fater pwysig ar gyfer ymchwil yn y dyfodol a datblygiad proffesiynol. Wrth gyfsweld, cwestiynu ac arsylwi maen pwysig i fynd ag arfer da i ysgolion eraill ac annog dysgu yn yr awyr agored, ac addasu er mwyn fod yn addas. Gan ystyried paratoi ar gyfer PAP 3 ac edrych ar safonau SAC, wrth wneud yr ymchwil hon teimlaf fy mod wedi datblygu llinyn "Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil" trwy gwblhau'r aseiniad hon a darllen llenyddiaeth flaenorol i weld beth sydd yn barod yn cael ei neud yn ysgolion o ran ardaloedd allanol. Hefyd y llinynau "cynnig arbenigedd" a "datblygu technegau" yn y dyfodol, wrth wneud yr ymchwil hon hoffwn dreulio fwy o amser yn ymchwilio i'r hyfforddiant sydd ar gael er mwyn gallu arwain ysgol y goedwig yn ysgol ar ôl graddio. Hefyd fel rhan o fy natblygiad proffesiynol byddwn hefyd yn ceisio cynnwys dysgu yn yr awyr agored fel rhan o'm gwersi mor aml â phosibl lle bo'n briodol, er mwyn annog dysgu tu allan i'r ystafell dosbarth yn gyson.

Cyfeirnod

Braun, V. and Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), pp.77–101.

<https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1191/1478088706qp063oa>.

Children of the Forest (2021). *Weather Policy*. Children of the Forest. <https://children-of-the-forest.com/weather-policy>.

Creative Play Company (2023). *Outdoor Activities To Develop Fine Motor Skills For Preschoolers* | *Creative Play*. creativeplayuk.com. <https://creativeplayuk.com/outdoor-activities-to-develop-fine-motor-skills-for-preschoolers/>.

Cyfoeth Natural Cymru (2023). *Evidence from across the world shows that outdoor learning promotes academic attainment through hands-on, experiential learning and by enhancing cognitive and emotional processes important for learning*. Available at: <https://naturalresources.wales/media/689711/outdoor-learning-can-improve-academic-attainment.pdf>

ESTYN (2024). *Mynd ag addysgu allan i'r awyr agored - Estyn*. [online] Estyn. <https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/mynd-ag-addysgu-allan-ir-awyr-agored/>

Forest School Association (2021). *What is Forest School?* [online] Forest School <https://forestschoollassociation.org/what-is-forest-school/>.

Forest schools (2023). *Online Level 3 Leader Course* | *Forest Schools*. Forest Schools Education. <https://www.forestschoools.com/products/online-course-level3-leader?variant=18422725673011>.

Georgeson, J. and Payler, J. (2013). *International perspectives on early childhood education and care*. Maidenhead, Berkshire ; New York: Open University Press.

Isaacs, B. (2018). *Understanding the Montessori approach : early years education in practice*. 2nd ed. New York: Routledge.

Kaiser, M.-L. ., Schoemaker, M.M., Albaret, J.-M. . and Geuze, R.H. (2015). What is the evidence of impaired motor skills and motor control among children with attention deficit

hyperactivity disorder (ADHD)? Systematic review of the literature. *Research in Developmental Disabilities*, 36, pp.338–357. doi:<https://doi.org/10.1016/j.ridd.2014.09.023>.

Kolb, D. (2014). *Experiential learning: Experience as the source of learning and development*. 2nd ed. Upper Saddle River, New Jersey: Pearson Education, Inc.

Llywodraeth Cymru (2022). *Egwyddorion ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm - Hwb*. hwb.gov.wales. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/egwyddorion-ar-gyfer-cynllunio-ch-cwricwlwm/>.

Llywodraeth Cymru (2024). *Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru - Hwb*. hwb.gov.wales. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad-i-ganllawiau-cwricwlwm-i-gymru/#cynnydd-ac-asesu-wrth-wraidd-y-gwaith-o-gynllunio>.

Merriam, S.B. (1998). *Qualitative Research and Case Study Applications in Education. Revised and Expanded from 'Case Study Research in Education.'* ERIC. Jossey-Bass Publishers, 350 Sansome St, San Francisco, CA 94104; phone: 415-433-1740; fax: 800-605-2665; World Wide Web: www. Available at: <https://eric.ed.gov/?id=ED415771>.

Michel, M. (2024). *Childminding UK: Promoting Physical Development through Outdoor Play*. Mortonmichel.com. <https://www.mortonmichel.com/news/childminding-uk-promoting-physical-development-through-outdoor-play>.

Munn, P. and Drever, E. (1990). *Eric Using Questionnaires in Small-Scale Research. A Teachers' Guide*. Available at: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED326488.pdf>.

NSPCC (2023). *Research with children: Ethics, safety and promoting inclusion*. NSPCC Learning. Available at: <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/briefings/research-with-children-ethics-safety-promoting-inclusion>.

Pillman (2022). *Teaching and learning in the outdoors: the current state of outdoor learning in schools in Wales*. <https://hwb.gov.wales/api/storage/177a33a6-7c70-4843-bb63-903e70a04154/teaching-and-learning-in-the-outdoors-the-current-state-of-outdoor-learning-in-schools-in-wales.pdf>.

Pollock, M., 2021. What is positionality. *Engineer Inclusion*. <https://engineerinclusion.com/what-is-positionality>.

Quintão, C., Andrade, P. and Almeida, F. (2020). How to Improve the Validity and Reliability of a Case Study Approach? *Journal of Interdisciplinary Studies in Education*, 9(2), pp.273–284.

Simons, H. (2009) *Case Study Research in Practice*. London: Sage.

Yin (1994) Yin, R. K. (1994). *Case study research: Design and methods*. London: Sage Publications.